

Gŵyl Gerdd Ryngwladol North Wales International
Gogledd Cymru Music Festival



Medi 10–19 Sept 2026

Cadeirlan Llanelwy St Asaph Cathedral
Theme - Macrocsm: Music and Conservation

Corau Encôr & Hen Nodiant



Corau Encôr a Hen Nodiant

Encôr & Hen Nodiant Choirs

Conductors: Mari Pritchard & Catrin Williams

Accompanists: Ann Peters Jones & Ed Jones

Rhaglen / Programme

Côr Hen Nodiant. *Conductor:* Catrin Williams,
Accompanist: Ann Peters Jones
John Rutter: A Clare Benediction

Glesni Rhys Jones. *Accompanist:* Ed Jones
W A Mozart: Vado, ma dove?
Richard Strauss: Die Nacht
Haydn Morris: Hei-Ho!

Côr Encôr. *Conductor:* Mari Lloyd Pritchard.
Accompanist, Ann Peters Jones
Mary S Jones: Ein Tad

Owain Rowlands. *Accompanist:* Ed Jones
W A Mozart: Non più andrai
Meirion Williams: Aros Mae'r Mynyddau Mawr
Ryan Davies: Medli

Owain Rowlands & Glesni Rhys Jones

Robat Arwyn: Benedictus – Bendigedig

Egwyl / Interval

Corau Encôr a Hen Nodiant, Glesni Rhys Jones & Owain Rowlands

Accompanist: Ed Jones, organ

Gabriel Fauré: Requiem

Pawb

Lewis Hartsough, Ieuan Gwyllt, Arr Jeff Howard:
Gwahoddiad

19 Saturday Dydd Sadwrn 19.00 65

Ers dros ddeng mlynedd, mae Encôr a Hen Nodiant, dau gôr i gantorion dros 60 oed, wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd yn flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Encôr yn gôr o Ynys Môn a'r Hen Nodiant o Gaerdydd, ac felly mae'r frwydr rhwng y Gogledd a'r De yn digwydd bob Awst, gyda llawer o hiwmor iach a phryfocio hwyliog rhwng y ddau gôr.

Ni allai Encôr gystadlu eleni, gan fod eu harweinydd, Mari Lloyd Pritchard, yn beirniadu yn yr Eisteddfod ochr yn ochr â Chyfarwyddwr yr Ŵyl, yr Athro Paul Mealor ac Euros Rhys Evans. Ac felly yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd, penderfynodd y ddau gôr ganu gyda'i gilydd. Roedd gwahoddiad cynnes Paul i gynnal yr Ŵyl yn Eglwys Gadeiriol fawreddog Llanellwyr yn gyfle na allem erioed fod wedi breuddwydio amdano. Mae'r ddau gôr wedi Dysgu gwaith hyfryd Offeren Faure yn arbennig, gyda llawer yn ei ddysgu am y tro cyntaf.

Bydd hwn yn brofiad gwirioneddol gofiadwy i bawb – diolch Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru.

.....

For over ten years, Encôr and Hen Nodiant, two choirs for singers over 60 years of age, have competed against each other at the National Eisteddfod. Encôr are a choir from Anglesey and Hen Nodiant from Cardiff, and so the North - South battle commences every year, with a lot of healthy humour and light-hearted banter between both choirs.

Encôr could not compete this year, as their conductor, Mari Lloyd Pritchard, was adjudicating at the Eisteddfod alongside Festival Director, Prof Paul Mealor and Euros Rhys Evans – and so rather than competing against each other, both choirs decided to sing together. Paul's warm invitation to close the festival at the prestigious St Asaph Cathedral was an opportunity that we could never have dreamed of. Both choirs have learnt the beautiful Fauré Requiem especially, with many learning it for the first time.

This will be a truly memorable experience for all – thank you North Wales International Music Festival.

Cor Encôr

Sefydlwyd Encôr yn 2016 wrth i Ynys Môn baratoi i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017. Yn dathlu eu dengmlwyddiant, mae'r côr wedi mwynhau cyfarfod yn wythnosol i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol bob mis Awst lle maent yn falch o fod wedi sicrhau ail safle ers blyneddau lawer. Bu i'r côr hefyd yn mwynhau cymryd rhan yn y rhaglen 'Corau Rhys Meirion' lle cawsant y ffrind o ganu gyda Chôr Gospel Birmingham.

Mae ymarferion Encôr mewn awyrgylch gynnes, groesawgar ac mae croeso i unrhyw un dros 60 oed sydd eisiau ymuno! Mae yna bob amser lot o chwerthin ochr yn ochr â'r gwaith called o ddysgu repertoire newydd yn flynyddol.

Eu harweinydd yw Mari Lloyd Pritchard ac maent yn ffodus i gael Ann Peters Jones fel cyfeilydd.

.....

Encôr was established in 2016 as Ynys Mon prepared to host the National Eisteddfod in 2017. Celebrating its tenth year, the choir has enjoyed meeting weekly to prepare for the National Eisteddfod every August where they are proud to have secured second place for many years. The choir also enjoyed taking part in the programme 'Corau Rhys Meirion' where they had the privilege of singing with the Birmingham Gospel Choir.

Encôr rehearsals are warm and welcoming to anyone over the age of 60 who wants to join and there's always a lot of laughing alongside the music making.

Their conductor is Mari Lloyd Pritchard and they are fortunate to have Ann Peters Jones as their accompanist.

Cor Hen Nodiant

Côr o Gaerdydd yw Côr Hen Nodiant, a elwid gynt yn **Gôr y Mochyn Du**. Ffurfiwyd yn 2008 yn benodol ar gyfer cantorion hŷn, fel arfer dros 60 oed er mwyn cymryd rhan mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol lle maent wedi ennill y gystadleuaeth côr dros 60 oed 13 gwaith! Mae'r côr

yn pwysleisio pwysigrwydd canu a phrofiad cymdeithasol, gan roi cyfleoedd i aelodau gwrdd â phobl newydd, mwynhau canu, a dysgu darnau newydd.

Mae'r côr yn cael ei arwain gan **Catrin Williams**, arweinydd profiadol sy'n cefnogi aelodau newydd i ymgartrefu yn y côr a mwynhau'r profiad o ganu a pherfformio a chael llwyddiant dro ar ôl tro o 2010 ymlaen. Mae Stewart Roberts yn cyfeilio'r côr. Mae Côr Hen Nodiant yn parhau i fod yn rhan fywiog o'r sîn gorawl Gymreig, gan gynnig cyfle i gantorion hŷn berfformio ar lefel uchel wrth feithrin ymgysylltiad cymunedol a diwylliannol.

.....

Côr Hen Nodiant, previously known as **Côr y Mochyn Du**, is a choir based in Cardiff, Wales, formed in 2008 specifically for older singers, typically aged 60 and above at the time of participation in events like the National Eisteddfod where they have won the over 60's choir competition 13 times! The choir emphasises both competition and social interaction, providing members with opportunities to meet new people, enjoy singing, and learn new pieces.

The choir is led by **Catrin Williams**, an experienced conductor who supports new members in settling into the choir and enjoying the experience of singing and performing and achieved repeated success from 2010 onwards. Stewart Roberts accompanies the choir. Côr Hen Nodiant continues to be a vibrant part of the Welsh choral scene, offering older singers a chance to perform at a high level while fostering community and cultural engagement.

Glesni Rhys Jones

Mae'r soprano ifanc Glesni Rhys Jones yn astudio cwrs meistr yn yr Academi Brenhinol yn Llundain, dan nawdd Ymddiriedolaeth Hywel Davies. Caiff ei dysgu gan Raymond Connell a Libby Burgess. Glesni yw ennillydd Cystadleuaeth Unawd o dan 25 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ynys Môn 2026.



Graddiodd Glesni gyda Dosbarth Cyntaf o'r RNCM yn 2025. Yn ystod ei hamser yn yr Academi, mae wedi perfformio fel Zweite Dame yn Die Zauberflöte ac fel Female Chorus yn The Rape of Lucretia gan Britten, yn ogystal â chanu yng nghorws cynyrchiadau Carmen a Trial by Jury.

Mae gan Glesni gysylltiad dwfn â thraddodiad corawl ac Eisteddfodol Cymru, ac mae'n ymrwymedig i hyrwyddo repertoire Cymreig ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol. Bu iddi gyrraedd rownd derfynol Ysgoloriaeth Towyn Roberts yn ogystal a'r Unawd Soprano o dan 25 yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025.

.....

Welsh Soprano Glesni Rhys Jones is currently studying a master's degree at the Royal Academy of Music supported by the Hywel Davies Trust for Young Musicians. She studies with Raymond Connell and Libby Burgess. Glesni won the 2026 Under 25 Singing Competition at the National Urdd Eisteddfod of Wales.

Glesni graduated with First Class Honours from the Royal Northern College of Music in 2025. At the Royal Academy of Music, she has performed the roles of Second Lady in Die Zauberflöte and Female Chorus in The Rape of Lucretia, as well as singing in the choruses of Carmen and Trial by Jury.

Deeply connected to the Welsh choral and Eisteddfod tradition, Glesni is committed to championing Welsh repertoire on national and international stages. Alongside her operatic work, she maintains an active solo career in oratorio and concert repertoire and is increasingly involved in new and contemporary music and musical leadership.

Owain Rowlands

Mae'r bariton Owain Rowlands, a aned yn Sir Gaerfyrddin, yn Artist Cyswllt gydag Opera Cenedlaethol Cymru ar gyfer tymor 2025/2026, lle mae wedi perfformio a chwarae rhan mewn cynyrchiadau gan gynnwys Tosca, Candide,



Blaze of Glory, The Flying Dutchman, ac eraill. Yn ddiweddar, cwblhaodd ei astudiaethau yn Ysgol Opera David Seligman, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, lle cafodd ei gefnogi gan Ysgoloriaethau Canmlwyddiant Syr Geraint Evans a Ryan Davies. Cyn hynny, enillodd MA (Perfformiad) gyda Rhagoriaeth a DipRAM gan yr Academi Gerdd Frenhinol, a BA mewn Mathemateg a Cherddoriaeth gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf o Brifysgol Caerdydd.

Yn rhyngwladol, mae Owain wedi perfformio yn Tsieina, Alabama, Georgia, Efrog Newydd, Washington DC, Philadelphia ac yn fwy diweddar yn Expo 2025 yn Japan fel Llysgennad Rhyngwladol Diwylliannol yr Urdd a CBCDC ochr yn ochr â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Yn ddiweddar, canodd Owain fel unawdydd yn y Royal Albert Hall fel rhan o Wyl Corau Meibion Cymreig Llundain, perfformiodd i'r Brenin mewn datganiad yn Norfolk a gwnaeth ei ymddangosiad cyntaf fel Schaunard yng Ngŵyl Opera Waterperry.

Mae llwyddiant Owain mewn cystadlaethau yn cynnwys cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Ysgoloriaeth Syr Bryn Terfel, Llais Rhyngwladol y Dyfodol Pendine yn Eisteddfod Llangollen, Canwr Ifanc y Flwyddyn Dunraven ac enillydd Llais Llwyfan Llanbed, Cystadleuaeth Cantorion Ifanc Cymreig Llundain, gwobr Ysgoloriaeth W Towyn Roberts, gwobr medal arian cwmni Cerddor ac yn ddiweddar Gwobr Syr Ian Stoutzker.

Mae Owain wedi perfformio gyda Gŵyl Ryngwladol Buxton, Opera Clasur Bampton a Gŵyl Opera Waterperry a bydd yn ymddangos fel Schaunard (La bohème) yn Opera Cenedlaethol Cymru cyn bo hir.

Mae ei rolau operatig yn cynnwys Don Giovanni, Schaunard (La Bohème), Bottom (Breuddwyd Noson Ganol Haf), Il Re (La bella dormiente nel bosco), Notary (Gianni Schicchi), Brikbrak (Ynys Alcina), John/Pete (The Impresario), Maximilian (Candide), ymhlith eraill.

.....

Carmarthenshire-born baritone Owain Rowlands is an Associate Artist with the Welsh National Opera for the 2025/2026 season, where he has performed and covered roles in productions including Tosca, Candide, Blaze of Glory, The Flying

Dutchman, and others. He recently completed his studies at the David Seligman Opera School, Royal Welsh College of Music & Drama, where he was supported by the Sir Geraint Evans Centenary and Ryan Davies Scholarships. He previously gained an MA (Performance) with Distinction and DipRAM from the Royal Academy of Music, and a BA in Mathematics and Music with First Class Honours from Cardiff University.

Internationally, Owain has performed in China, Alabama, Georgia, New York, Washington DC, Philadelphia and more recently at Expo 2025 in Japan as the Cultural International Ambassador for the Urdd and RWCMD alongside Wales Arts International.

Recently Owain sung as a soloist at the Royal Albert Hall as part of the London Welsh Festival of Male Choirs, performed for the King in a recital at Norfolk and made his debut as Schaunard at Waterperry Opera Festival.

Owain's success in competitions include being a finalist in the Sir Bryn Terfel Scholarship competition, Pendine International Voice of the Future at Llangollen Eisteddfod, Dunraven Young Singer of the Year and winner of Llais Llwyfan Llanbed, London Welsh Young Singer Competition, the W Towyn Roberts Scholarship prize, Musician's company silver medal award and recently the Sir Ian Stoutzker Prize.

Owain has performed with Buxton International Festival, Bampton Classical Opera and Waterperry Opera Festival and will soon appear as Schaunard (La bohème) at Welsh National Opera.

Operatic roles include Don Giovanni, Schaunard (La Bohème), Bottom (A Midsummer Night's Dream), Il Re (La bella dormiente nel bosco), Notary (Gianni Schicchi), Brikbrak (Alcina's Island), John/Pete (The Impresario), Maximilian (Candide), among others.

Ed Jones



Ed Jones comes from Aberdeen where he started his musical life on the piano and latterly the cello. He attended the University of Aberdeen to study for a Bachelor of Music, graduating with first class honours in 2011. He completed his PhD under the supervision of Paul Mealor and Phillip Cooke, in choral composition. During his time at university, he started learning the organ in an Anglo-Catholic church in Aberdeen, St Margaret of Scotland, on the Gallowgate. During this period, he also started to sing countertenor at St Andrew's Cathedral, adding to his musical route into church music. He latterly took up the post of Assistant Organist at St Andrew's Cathedral, while at university. Since finishing his PhD, Ed has held positions in several cathedrals across the UK, in both playing and directing roles. Having concentrated a large portion of his career into directing choirs and leading music departments, he has continued playing the organ in various capacities

Having left the world of full-time cathedral music, Ed has transitioned seamlessly into the world of financial services. He is a Financial Adviser and Planning Consultant. Currently, his self-employed role allows him to pursue several musical activities and he has relished the balance between the two. It gives great flexibility, and he has found a concentrated appreciation of directing choirs, playing the organ, and assessing personal financial circumstances. He continues to play the organ – recitals, services, and the occasional CD recording. Based in North Leeds, he finds there are a plethora of opportunities to immerse himself into the musical world. He performs as a deputy organist or lay clerk in several cathedrals and directs various choirs in the area. He continues to be active as a composer. Besides his financial or musical life, he is a keen distance runner, enjoys a fine curry, and tries to convince himself that a new sports car is not always financially advisable.

